

## Cofion

- Gyda thristwch y daeth y newydd am farwolaeth dau o'n haelodau yn ystod yr wythnos. Bu farw Miss Hanna Alice Jones (Llansannan) yng Nghartref Yr Hen Ficerdy, Pandy Tudur wythnos i ddydd Gwener. Roedd hi'n 98 oed â'i chof hyd y diwedd yn destun edmygedd i lawer ohonom. Diolchwn i Dduw amdani ac am ei ffyddlondeb ar hyd y blynyddoedd. Ac yna, bore dydd lau y daeth y newydd am farwolaeth Mr Elfed Davies (Saron) yng Nghartref Plas Eleri, Dinbych. Fe'i cofiwn yntau am ei ffyddlondeb i'r capel ac am ei wên dawel werthfawrogol bob amser. Diolchwn amdano ac estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â'i frawd, Glyn Davies, a gweddill y teulu. Cyflwynwn hwy oll i ofal Duw, gan hyderu y cânt adnabod Ei heddwch a'i dangnefedd dros y dyddiau hyn.
- Anfonwn ein cofion hefyd at y cleifion yn ein plith. Mae Trefor Jones (Cefn Meiriadog) a Harold Pierce (Llanefydd) yn parhau yn Ysbyty Glan Clwyd ar hyn o bryd, er bod Harold yn disgwyl cael mynd i Lerpwl i gael llawdriniaeth yr wythnos nesaf. Gweddïwn y bydd popeth yn mynd yn hwylus iddo ac y bydd ef, a Trefor, yn cael adferiad iechyd buan iawn. Yn yr un modd parhawn i gofio am Heulwen Roberts (Henllan) a Menna Owen (Cefn Meiriadog) yn yr Inffirmari. Gweddïwn y bydd Duw yn parhau i'w cynnal hwythau wrth iddynt gryfhau.
- Yr ydym yn llawenhau heddiw gyda Sioned a Dilwyn Williams ac Ela (Llansannan) yn dilyn derbyn rhodd o ferch a chwaer fach, Cadi Mair.

## I ddod

- Cyfarfod o **Christian Viewpoint** yng Nghanolfan Gymunedol Bae Cinmel nos Lun, Mawrth 12fed am 7.30 yng nghwmni Fiona Clarke, Cydlynnydd Prosiect Cymorth i Ferched Aberconwy. Thema ei sgwrs fydd "Codi Ymwybyddiaeth o Gamdrin yn y Cartref". Mynediad: £3 yn cynnwys bwffe. Mwy o fanylion gan Mair (870632).
- **Noson ddwyieithog i athrawon Ysgol Sul, arweinwyr plant a ieuentid a gweithwyr ysgolion** nos Fercher, Mawrth 14eg yng Nghapel Berea Newydd, Bangor LL57 2AX am 7.00. Am fwy o fanylion, ffoniwch Gwyn Rhydderch ar 07979 860537.
- **LLANW** - Gŵyl deuluol yng Nghei Newydd rhwng Ebrill 9fed-13eg ar gyfer Cristnogion led-led Cymru – plant, ieuentid, teuluoedd, myfyrwyr, pobl sengl a pharau o bob oed! Mwy o fanylion ar y wefan [www.llanw.org](http://www.llanw.org) neu drwy holi Rhodri.

## Llais Bro Aled

Dydd Sul, 26<sup>ain</sup> Chwefror 2012

"Cyflymu at y nod" yng Nghapel  
Henllan nos Fawrth am 7.30 –  
gweler cyhoeddiadau'r Fro.

[www.dawncymru.org](http://www.dawncymru.org)

[www.eglwysibroaled.com](http://www.eglwysibroaled.com)

[www.llanw.org](http://www.llanw.org)

Mae Dydd Gŵyl Dewi ar y gorwel a'r genedl yn dathlu ei gyfraniad a'n hetifeddiaeth Gristnogol unwaith eto. Diolchwn i Dduw – Tad yr holl genhedloedd (Effesiaid 3:15) am hanes ein cenedl ac am waith ei ras yn ein plith dros yr holl ganrifoedd. Sut mae pethau erbyn hyn dybed? Sut 'dach chi'n ei gweld hi? Sut fydd hi arnom mewn pum mlynedd eto? Mewn deg ac mewn ugain mlynedd? Pa lewyrch fydd ar achos yr Efengyl? Mi rydan ni'n gofidio – fedrwn ni ddim gwneud dim byd arall – OND y mae gennym yr un Duw â Dewi Sant, ac fe all newid Cymru eto!

Dyma un o'r prif resymau paham ein bod yn awyddus i symud ymlaen hefo'r cysiau hyfforddiant – 'Adnabod Dawn'. Dyma pam hefyd, cyn hynny ein bod wedi gofyn i'r blaenoriaid a phawb sydd â diddordeb i ddod i'r sesiynau 'Cyflymu at y Nod'. Bydd yr ail sesiwn nos Fawrth lle byddwn yn cyflwyno cynllun yr hyfforddiant ac yn gofyn am ymateb. Y gwir plaen ydi, os na wnawn ni gymryd yr alwad yma i hyfforddi ac annog ein gilydd o ddifri, ac i ni gymryd mwy o gyfrifoldeb am ein dyfodol rwan, mi fydd hi yn rhy hwyr ac fe fydd y dirywiad cyffredinol wedi ein goddiweddu. Os ydi'n treftadaeth Gristnogol yn golygu rhywbeth inni ac os oes unrhyw apêl o du cariad yr Arglwydd tuag atom, yna rhown ein cefnogaeth i'r gwaith hwn a chwiliwn ein calonnau a Gair Duw eto i geisio ei ewyllys ar ein cyfer.

Rwy'n credu, wrth gwrs, y dylem gofio Dewi. Rwy'n credu y dylem edmygu ei ffydd a'i ffyrdd heddychlon, ei faich dros rannu'r efengyl a'i sêl dros greu cymunedau Cristnogol a chelloedd o bobl ymroddedig. Ond dwi am i ni fod yn rhan fywiol o'r treftadaeth yma a dysgu ein gilydd eto sut i rannu ein ffydd, sut i ddyfnhau ein bywyd ysbrydol, sut i ogoneddu Crist yn ein cenhedlaeth ni. Nid edmygedd o bell y medrwn ei roi o'r neilltu o flwyddyn i flwyddyn ydi hyn ond ymroddiad bwriadus o galon ddiolchgar i gael ein hyfforddi yn y ffydd er mwyn i ninnau ymroi o'r newydd i rannu'r newyddion da am Iesu!

Mewn Cynhadledd heddiw (dydd lau) daeth 200 o bobl ynghyd i weddio dros Gymru ac i ystyried natur y weinidogaeth i'r dyfodol. Cefais gyfle byr i ddweud am yr hyn sy'n digwydd yn y Fro hon ac i ganmol Duw am ei waith yn galw ein plant a'n hieuentid a'n hoedolion i'w garu. Fy ngobaith ydi y byddwn yn parhau i ymateb fel y gwnaeth Dewi ac y gwelwn Dduw ar waith yn dyrchafu ein cenedl ac yn peri fod 'enw yr Arglwydd yn cael ei fawrygu' (Actau 19:17).

## Cyhoeddiadau

### Y Fro

- Sul yma • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Celfyn, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.
- Mawrth • **Cyflymu at y Nod** – Yr ail o'r cyfarfodydd i holl flaenoriaid y Fro ac i unrhyw un arall sydd â diddordeb i ddod i ddeall mwy am weledigaeth y Fro a gwaith yr eglwys. Cynhelir y cyfarfod yng Nghapel Henllan am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant** yn Llanefydd am 3.15.
- Gwener • **CIC Gŵyl Ddewi** yn Ffestri Llansannan am 7.30.
- Sadwrn • **Darlithoedd DAWN Cymru** yng Nghapel Seion, Baker Street, Aberystwyth SY23 2BJ. (Paned am 10.00, y darlithoedd yn cychwyn am 10.30.)
- Sul nesaf • Cynhelir **Oedfa'r Fro** yn Llansannan am 6.00. Arweinir yr oedfa gan Huw Tan y Graig, bydd Aneurin yn pregethu a bydd paned i bawb yn dilyn yr oedfa.

### Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yng Nghewn Meiriadog am 10.30. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang yn Llanfair am 10.00 ac yng Nghewn Meiriadog am 2.00. Bydd Ysgol Sul yng Nghewn Meiriadog am 10.30 ac yn Llanfair am 11.00.

### Llansannan

- Sul yma Bydd Mr Wyn Davies yn arwain oedfa am 10.00 ac Ysgol Sul y plant yn cyd-redeg. Cynhelir Ysgol Sul i'r oedolion am 11.10.
- Iau Cinio'r Jangl am 12.00.  
Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn y Ffestri am 7.30.
- Gwener Swper Gŵyl Ddewi Cymdeithas Llansannan yn y Ganolfan am 7.00.  
Enwau i Marian Davies (870619) erbyn dydd Llun, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa deuluol ac yn bedyddio Llyr Sion, mab bach Sion a Kaye Evans, yn ystod yr oedfa. Bydd Ysgol Sul yr oedolion yn dilyn am 11.10.

## Cyhoeddiadau

### Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Hugh Pritchard yn arwain oedfa yn Saron am 2.00 a'r Ysgol Sul yn cyd-redeg. Cynhelir yr Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00.

### Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd-Eang y Chwiorydd yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Aneurin yn arwain oedfa yn Nantglyn am 2.00.

### Henllan a Groes

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa undebol Gŵyl Ddewi i'r daith yn Henllan am 2.00. Croeso i bawb aros am baned ar ôl yr oedfa. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.
- Sul nesaf Bydd y Parch Hugh Pritchard yn arwain oedfa yn Henllan am 3.15. Cynhelir Ysgol Sul yn Henllan a Groes am 10.00.

### Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa i'r daith yn Llanefydd am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd a Chefn Berain am 10.00.
- Sul nesaf Cynhelir Cyfarfod Gweddi Byd Eang y Chwiorydd yn Llanefydd ac yng Nghewn Berain am 2.00 a'r Ysgolion Sul am 10.00.

### Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

- Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,  
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i  
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102  
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

### Eglwys Bro Aled

Tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau